Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 8

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 11.)

Yn fflat Michael ac Anwen. Mae Anwen wedi bod yn aros am Michael.

Anwen: Michael! Ble rwyt ti wedi bod? Mae pawb yn chwilio amdanat ti! Mae Cynhadledd i'r Wasg y prynhawn 'ma am bedwar.

Michael: Dw i'n gwybod am y Gynhadledd. Dw i ddim yn mynd. Wnei di ffonio i ymddiheuro?

Anwen: Ymddiheuro am beth, Michael? Ymddiheuro dy fod di'n sâl? Ymddiheuro dy fod di'n rhy brysur?…..O na…sori. Ti ydy'r capten… Ymddiheruo dy fod di'n gamblo bob nos, efallai, ac yn prynu chwaraewyr….?

Michael: Cau dy ben, wnei di?

Anwen: Mae'n rhaid i ti fynd. Bydd pawb yn disgwyl amdanat ti.

Michael: Wel, fydda i ddim yno.

Anwen: Hy! Fi, fi, fi! Mae'n rhaid i ti feddwl amdana i hefyd, Michael.

Mae Michael yn agor ei ffôn symudol.

Anwen: Beth rwyt ti'n wneud nawr?

Michael: Dw i'n mynd i anfon nodyn at Gadeirydd y clwb i ddweud fy mod i'n sâl ac wedyn dw i'n mynd i bacio. Dw i'n mynd i'r Eidal heno.

Anwen: Cachgi!

Michael: Cachgi? Anwen! Mae arna i arian mawr i'r Casino. Mae'n rhaid i fi fynd.

Anwen: Mae arnat ti rywbeth i fi hefyd, Michael. Fi yw dy chwaer di!

Michael: Dw i wedi dweud wrthot ti. Mae'n rhy beryglus i fi aros.

Anwen: A beth amdana i?

Michael: Wyt ti eisiau dod?

Anwen: Nac ydw. Dw i eisiau i ti fynd i'r Gynhadledd. Dw i eisiau i ti ddweud POPETH wrth y Cadeirydd a dw i eisiau i ti ofyn am help yr heddlu.

Michael: Anghofia amdana i, Anwen. Dw i'n mynd i'r Eidal a does dim pwynt dod i chwilio amdana i.

Geirfa

Cachgi – Coward

Rhy beryglus – too dangerous